# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 1 Gorffennaf 2015** |
| Amser: | **09.30 – 11.48** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/3012**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Altaf Hussain AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Dr Ruth Hussey, Llywodraeth Cymru**<br>**Chris Tudor-Smith, Llywodraeth Cymru**<br>**Sue Bowker, Llywodraeth Cymru**<br>**Dewi Jones, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Ail Glerc)**<br>**Sian Giddins (Dirprwy Glerc)**<br>**Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

Amy Clifton (Ymchwilydd)
Victoria Paris (Ymchwilydd)
Philippa Watkins (Ymchwilydd)

**Trawsgrifiad**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Bu'r Gweinidog yn ateb cwestiynau gan Aelodau.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor i:

- amlinellu barn Llywodraeth Cymru ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i:
  - osod cyfyngiadau ar werthu cynhyrchion siwgr uchel ac alcohol; a
  - gwahardd gwerthu sigaréts confensiynol yng Nghymru.
- rhoi manylion nifer y bobl yr oedd arnynt angen cymorth meddygol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf o ganlyniad i ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithdrefnau arbennig a nodir yn y Bil, gan gynnwys y gost o ddarparu'r driniaeth, wedi'i manylu yn ôl y 4 gweithdrefn;
- rhoi manylion y dystiolaeth y cyfeiriodd ato yn dweud bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr e-sigaréts hefyd yn defnyddio sigaréts tybaco confensiynol; ac
- amlinellu cyfradd llwyddiant defnyddio e-sigaréts fel dull o roi'r gorau i ysmygu o gymharu ag opsiynau eraill.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2015

3.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin.

3.2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): gohebiaeth gan y Llywydd

3.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

3.3 Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): gohebiaeth mewn perthynas â'r trafodion Cyfnod 2

3.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i ddychwelyd at y pwnc yn ei drafodaeth nesaf ar raglen waith y Pwyllgor.

3.4 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015: gwybodaeth ychwanegol
3.4a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol.

3.5 P-04-603 Helpu Babanod 22 Wythnos Oed i Oroesi: gohebiaeth gan y Prif Swyddog Meddygol
3.5a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chroesawodd y cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Swyddog Meddygol i:

- ofyn i gael gwybod am unrhyw gynnydd pellach gyda'r ddogfen consensws clinigol sy'n cael ei datblygu gan y Grŵp Rheoli Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru Gyfan a Rhwydwaith Mamolaeth Cymru Gyfan; a
- cheisio gwybodaeth bellach am yr amserlenni ar gyfer y gwaith sy'n mynd rhagddo gan y Grŵp Mamolaeth a'r Rhwydwaith Newyddenedigol i ddatblygu llwybrau gofal i rieni a babanod, gan gynnwys darparu gofal lliniarol a phrofedigaeth.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o eitem 1 yn y cyfarfod ar 9 Gorffennaf 2015

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): ystyried y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015: ystyried y llythyr drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chytunwyd ar y llythyr hwnnw, yn amodol ar fân newidiadau.